

## Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Tystiolaeth i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

### Amdanoch Chi

Sefydliad: Rhieni Dros Addysg Gymraeg

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y [Bil Cwricwlwm ac Asesu\(Cymru\)](#)?

Yn rhannol

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)*

Y mae'n gyfnod cyffrous iawn i addysg yng Nghymru gyda dyfodiad y Bil hwn. Rhaid canmol y dull cynhwysol a phwrpasol a ddefnyddiwyd i'w lunio gan gywain arbenigedd ein hadnodd mwyaf gwerthfawr, sef ein gweithlu addysg.

O ganlyniad, dyma gychwyn ar gyfnod arloesol i addysg yng Nghymru lle y bydd addysg yn gadarn yn nwylo'r dysgwr a'r addysgwyr a lle bydd cyfle o'r newydd i greadigrwydd ac arloesedd yr athro ymateb yn llawn i anghenion y dysgwr unigol lle bynnag y bônt - o Fôn i Fynwy ac o Brestatyn i Benfro.

Mae RhAG yn cefnogi'r rhan fwyaf o egwyddorion y Bil. Er hyn, y mae gennym bryderon sylweddol am effeithiau posibl Adran 3 (2) ac adrannau 26 a 27 y Bil. Ac wrth i ni baratoi i sefydlu deddfwriaeth mor arwyddocaol i addysg ac i Gymru, rhaid i'r Bil hwn sicrhau'r ddeddfwriaeth orau posibl ac un sydd yn cryfhau ac yn rhagori ar ddeddfwriaethau'r gorffennol.

1. Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg. Y mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i

ymwybyddiaeth a gallu Awdurdodau Lleol ar draws Cymru i gynllunio'n fwiadus ac yn strategol er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o filiwn o Siaradwyr erbyn 2050. Mae'n galonogol gweld yr enillion cadarnhaol diweddar sydd wedi digwydd ar draws Cymru i sicrhau bod y datblygiadau'n dwyn ffrwyth pellach drwy gynllun cyfalaf Addysg Gymraeg. Yr ydym yn gweld canlyniadau uniongyrchol hyn yn datblygu'n gadarn. Mae'n argoeli'n dda ar gyfer sefydlu cyfnod nesaf y cynlluniau yn y misoedd i ddod.

2. Yn ogystal, y mae sefydlu'r fforymau Addysg Gymraeg ym mhob sir wedi gwneud cyfraniad strategol arwyddocaol i ddatblygiad y cynlluniau hyn, gyda'r egwyddor o gydweithio a chyfrannu at gynllun byw a deinamig yn nodwedd gadarnhaol ac yn enghraifft ardderchog o gydgyllunio gwybodus a deallus gyda chyfraniadau swyddogion Llywodraeth Cymru, Llywodraeth leol a rhanddeiliaid addysg a chymunedol yn rhannu eu harbenigeddau i sicrhau datblygiad Addysg Gymraeg yn ein hardaloedd lleol.

3. Un o egwyddorion sylfaenol ac arwyddocaol y cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd yw dilyniant darpariaeth. Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 sydd wedi bod mewn grym ers Ionawr 2020, wedi gosod yn glir ei bod yn ddisgwyliad i Awdurdodau Lleol gynllunio'n fwiadus o'r cyfnod cyn ysgol hyd at gyfnod ôl-16. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau a gynhelir a nas gynhelir megis Cylchoedd Meithrin.

4. Ac felly'r disgwyliad, ac yn wir yr addewid a gafwyd gan y Gweinidog Addysg yn dilyn yr ymgynghoriad ar y papur gwyn oedd y byddai'r egwyddorion sylfaenol i gryfhau'r cyfleoedd i addysgu'r Gymraeg o fewn cyd-destun y cwricwlwm newydd o'r blynyddoedd cynnar, yn gadarn ac yn ddi-syfl. Geiriau'r Gweinidog yn y ddogfen Datganiad ar barhad trochi plant oedd:

"I fod yn hollol glir felly: ein cynnig yw y bydd y cwricwlwm newydd yn parhau i alluogi ysgolion a lleoliadau, fel y Cylchoedd Meithrin, i drochi plant yn y Gymraeg yn llwyr. Fe sicrhawn y bydd unrhyw gynigion deddfwriaethol ynghylch Saesneg yn y cwricwlwm newydd yn adlewyrchu hyn."

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-02/datganiad-ar-barhad-trochi-plant->

Ond, nid dyna yw'r achos pan edrychir ar eiriad presennol y Bil arfaethedig. Yn wir, pryderwn fod geiriad y Bil presennol yn mynd yn groes i egwyddorion y cynlluniau hyn ac yn ein barn ni fel mudiad y mae yna berygl i ddisodli'r cynlluniau pe na addesir rhannau ohoni.

5. Nid yw'n glir i ni fel mudiad, ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno hyd yn hyn gan swyddogion y gweinidog Addysg i esbonio pam bod y Saesneg wedi ei gynnwys yn Adran 3 (2) fel rhan fandadol o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, ar y cyd gydag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Gymraeg . Nid oedd yr un argymhelliad yn awgrymu'r cymal hwn yn argymhellion Dyfodol Llwyddiannus - Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru gan Yr Athro Graham Donaldson CB, Chwefror 2015. Lle felly mae'r dystiolaeth i gefnogi cynnwys y Saesneg yn y cymal hwn?

6. Cytunwn yn llwyr â'r egwyddor o gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Gymraeg fel rhan fandadol gan eu bod yn agweddau sydd yn cael eu diogelu o dan gyfreithiau eraill fel nodweddion gwarchoddedig o dan y ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

7. Nid yw'r cymal hwn yn adlewyrchu'r system bresennol o drochi plant o'r blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg hyd at gyfnod allweddol 2, system sydd wedi ei hen sefydlu yng Nghymru ac sydd wedi profi fel system lwyddiannus ac un sydd yn cael ei harddel yn rhyngwladol yn ogystal ag yng Nghymru.

8. Sgil effaith uniongyrchol y cymal hwn yw bod yn rhaid cynnwys adran 26 a 27 yn y Bil i ddatgymhwyso'r Saesneg fel elfen fandadol yn y blynyddoedd cynnar ac y mae'r dull o wneud hynny hefyd yn ein pryderu'n fawr. Bydd y Bil yn ei ffurf bresennol, yn trosglwyddo cyfrifoldeb pennu cyfrwng darpariaeth y blynyddoedd cynnar i ddwylo ysgolion a chyrrff llywodraethu unigol ac y byddai hyn yn medru disodli'r dull trochi o gyflwyno'r Gymraeg gan yn ogystal greu sefyllfaoedd o anghydweld posibl rhwng ysgolion/darpariaethau unigol a pholisi awdurdodau lleol a chenedlaethol. Byddai greu sefyllfaoedd posibl o dyndra fel hyn rhwng chyrrff Llywodraethol a'r Awdurdodau Lleol yn annoeth ac yn mynd yn erbyn ysbryd ac egwyddor y bil hwn a nifer o ddeddfau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru ac yn gyfrifoldeb diangen ar gyrff llywodraethu'r darpariaethau hyn. Yn ogystal â hyn gallai rhoi'r argraff taw'r Saesneg yw iaith normadol cyfundrefn gofal ac addysg Cymru, sydd wrth gwrs yn gwbl groes i weledigaeth Llywodraeth Cymru.

9. Byddai'r weithred o ddatgymhwyso'r Saesneg yn danfon neges ddryslyd ac o bosib yn codi tyndra diangen mewn cymunedau yn ogystal. Nid gwrthwynebu addysgu'r Saesneg fel pwnc a wnawn ond gwrthwynebu cynnwys y Saesneg yng nghymal 3 (2) fel bod angen cynnal y weithred o ddatgymhwyso er mwyn darparu addysg drochi yn y cyfnod sylfaen. Mae'r Saesneg yn iaith fwyafrifol o fewn ein cymunedau ac yn anorfod byddwn yn disgwyl iddi fod yn rhan o'r Cwricwlwm fel pwnc o gyfnod allweddol 2 – fel sydd yn digwydd yn

barod. Mae strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, Cymraeg 2050 yn nodi'n glir:

Y nod hirdymor ar gyfer ein darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar yw cyrraedd sefyllfa lle mae plant dan bump oed wedi cael digon o gyswllt â'r Gymraeg i allu dechrau ar eu taith i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl...

Gyda'r nod o:

...ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn yr un modd noda Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2010), sy'n egluro uchelgais Llywodraeth Cymru i gael

...gwlad lle y mae addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r isadeiledd addysg. Rydym am sicrhau bod y system addysg yn ei gwneud yn bosibl i fwy o ddysgwyr o bob oedran feithrin amrywiaeth ehangach o sgiliau iaith yn y Gymraeg. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau personol, yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Rydym am weld system sy'n ymateb i alw'r cyhoedd am gynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Dyma yw'r llwybr sydd wedi ei brofi ar hyd y degawdau sy'n creu dysgwyr dwyieithog. Cam yn ôl fyddai cynnwys y Saesneg fel agwedd fandadol, cam fyddai'n cymhlethu gweithrefn sydd wedi ac yn parhau i weithio'n effeithiol.

Dyma gyfle gwirioneddol i gadarnhau'r agwedd allweddol hon a'i diffinio'n eglur yn y Bil arloesol hwn. Gofynnwn felly i chi ddileu'r Saesneg yn llwyr o Adran 3 (2) neu ddileu'r angen i weithredu'r elfen o ddatgymhwysu o leiaf.

### **1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Ydym

## 2. Gweithredu'r Bil

### 2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Noda'r asesiad effaith Integredig

2.21 Mae'r Cwricwlwm newydd yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn llawn. Rydyn ni eisiau gweld pob dysgwr yng Nghymru yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol. Y nod yw trawsnewid y modd yr ydym yn addysgu Cymraeg fel bod, erbyn 2050, o leiaf 70% o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Nid yw cynnwys cymal 3(2) yn cydweddu gyda'r dyhead hwn.

a

2.24 Mae Cymraeg 2050 yn datgan mai addysg drochi yw ein prif ddull o sicrhau bod ein system addysg yn cyfrannu at gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r cynigion yn cefnogi'r cysyniad o drochi, a bydd gan benaethiaid yr hyblygrwydd i gyfyngu ar y defnydd o Saesneg, neu i beidio ag addysgu Saesneg o gwbl, i ddysgwyr hyd at saith oed, lle mae'r rhieni wedi dewis anfon eu plentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg.

Nid ydym yn cytuno gyda'r cynsail hwn o roi'r gallu i benaethiaid i gyfyngu ar y defnydd o'r Saesneg, neu i beidio ag addysg Saesneg o gwbl. Dylid defnyddio dulliau ac agweddau mwy rhagweithiol a chadarnhaol i ysgogi a chymell agweddau sydd yn hyrwyddo ac yn annog defnydd ac addysgu'r Gymraeg.

### 2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Nac ydym

### 3. Canlyniadau anfwriadol

#### 3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Rydym wedi nodi ein pryderon yn ateb 1.1 ac felly hyderwn fod y canlyniadau hyn yn anfwriadol. Siomedig fyddai i ni fel arall. Dylid galluogi dysgwyr i dderbyn, a darparwyr i ddarparu addysg Gymraeg yn hawdd a heb rwystr, o'r cyfnod sylfaen, fod yn egwyddor ganolog a chraidd i'r Bil hwn.

### 4. Goblygiadau ariannol

#### 4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r [Memorandwm Esboniadol](#))? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

- Dylid sicrhau bod paratoi'r gweithlu i addysgu'r Cwricwlwm newydd yn cael ei gynllunio'n ofalus a'i gyllido'n deg ac yn llawn. Dylid ymdrin â'r cynllunio hyn yn yr un modd a wnaethpwyd wrth lunio'r cwricwlwm gan ymgynghori â holl randdeiliaid allweddol y sector.
- Dylid sicrhau bod yr adnoddau i weithredu holl ofynion y cwricwlwm yn llawn - yn enwedig yr elfennau i alluogi Cwricwlwm yn addas at yr G21ain yn enwedig yn sgil cyfnod cofid-19 a'r angen am gwricwlwm cyfunol ar lawr y dosbarth ac ar lein, yn flaenoriaeth.

### 5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

#### 5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r [Memorandwm Esboniadol](#))? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.)*

-

## 6. Ystyriaethau eraill

### 6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)*

Croesawn ddatganiad 3.140 yn y Memorandwm Esboniadol

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg

Mae 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' yn amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn un o'r tair prif thema, ac mae gweddnewid y ffordd rydym yn addysgu'r Gymraeg i bob dysgwr, er mwyn i o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny allu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol, yn un o'r prif newidiadau gweddnewidiol y bydd eu hangen yn y sector addysg statudol er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

Dylai'r weledigaeth hon ymddangos mewn lle mwy canolog ar flaen y Bil. Mi fyddai hyn yn cau'r cylch o'r weledigaeth yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwr at weithredu'r cynlluniau strategol y Gymraeg mewn Addysg a dyfodiad y Bil hwn yn daclus. Dyma'r cyfle.

Gan ddiolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

